Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

2 Mawrth 2016

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Mewnfudo: gofynion iaith ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus

## Cefndir

1. Ar 5 Chwefror 2016, gosododd y Prif Weinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ('y Memorandwm') ar gyfer y Bil Mewnfudo sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.

2. Ar 9 Chwefror 2016, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'w drafod. Wrth gyfeirio'r Memorandwm, pennodd y Pwyllgor Busnes 10 Mawrth 2016 fel y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad.

3. Mae dadl wedi'i threfnu yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mawrth ynghylch Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Memorandwm.

## Y Memorandwm

4. Mae paragraffau 3 a 4 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Yn fras, amcan polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw mynd i'r afael â mewnfudo anghyfreithlon drwy ei gwneud yn fwy anodd i fyw a gweithio yn anghyfreithlon yn y DU.

5. Mae paragraffau 5 i 13 yn cynnwys y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Mae paragraffau 14 i 17 yn nodi'r manteision o ddefnyddio'r Bil yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad, ym marn Llywodraeth Cymru.

## Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

6. Ceisir caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Rhan 7 o'r Bil, a fyddai'n gymwys mewn perthynas â Chymru.

7. Mae Rhan 7 yn ymwneud â gofynion iaith ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus Yng Nghymru, mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i sicrhau bod pobl sy'n cael eu cyflogi mewn rôl lle maent yn ymdrin â chwsmeriaid yn siarad Cymraeg neu Saesneg yn rhugl. Bydd y ddyletswydd honno ond yn berthnasol i'r awdurdodau cyhoeddus a ddiffinnir yn y Bil.

8. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol ar yr awdurdodau cyhoeddus hynny i gael gweithdrefnau ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion sy'n ymwneud ag achosion o dorri'r ddyletswydd, ac i roi sylw i god ymarfer (y darperir ar ei gyfer yn y Bil) wrth benderfynu a yw'r gweithdrefnau hynny'n ddigonol.

9. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys pŵer i'r Gweinidog perthnasol ymestyn y ddyletswydd statudol i gynnwys cyrff yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu contractio allan.

## Ystyriaeth a chasgliad y Pwyllgor

10. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm ar 25 Chwefror 2016. Nid oes unrhyw faterion yr ydym am dynnu sylw'r Cynulliad atynt.